304

18 68.

# CAN
# Y LECSIWN.

TON,—"*Nelly Bly.*"

MAE'r blaid Ryddfrydig, onid yw,
  Fel lefain yn y blawd
Yn gweithio 'i ffordd yn rymus iawn
  Drwy rwystrau fyrdd a gwawd:
Fel llong lawn hwyliau, gadarn, gref,
  Ar fôr trochionog byw;
I borthladd llwyddiant mae hi'n myn'd,
  A GLADSTONE wrth y llyw.

BYRDON.

Fel llong lawn hwyliau, gadarn, gref,
  Ar fôr trochionog byw;
I borthladd llwyddiant mae hi'n myn'd,
  A GLADSTONE wrth y llyw.

Ni fedr sciriwiau'r ddaear 'nawr,
  Na brâd na gorthrwm llu,
Niweidio hynt y llong—mae'r *tide*,
  A gwynt y nef o'i thu:
Mae'i hegwyddorion fel y wawr,
  Yn lluchio'u golau cân,
Nes gyru t'wyllwch gormes gwael
  I gerdded yn mhob man.

x 2052276 0X

Yn Arfon deg y gwelir hwy
  Yn ferw gwyllt drwy'r wlad,
A bloeddiant, "*Parry* fynwn ni—
  "Yn mhell bo 'mab ei dad'."
A hwythau'n Môn—yr hen Sir Fôn,
  Nis gallant oddef mwy,
'Does dim yn llai a'u boddiant 'nawr
  Na *Davies* iddynt hwy.

Maent yn Sir Ddinbych fel un gwr,
  Dros Ryddid deg yn dỳn,
Eu *Watkin Willims*, fynant gael,—
  (Nid Watkin Williams Wynn),
Ac yn Meirionydd, law yn llaw,
  Fe waeddant yn gytûn,
Nes dawnsia'r Gader Idris draw—
  Ein *Williams* ydyw'r dyn:

Yn Fflint mae *Grosvenor* yn parhau,
  A *Tracy*'n Maldwyn sydd,
Yn gwylio'u lles yn ngwresog sêl
  Eu hegwyddorion rhydd;
Ac yn Nghaerfyrddin gwaeddi maent
  Yn unol a didaw,
"Ein *Sartoris* a fynwn gael
  I'n gwylio maes o law."

Maent hwythau'n Aberteifi'n fyw
  Am *Richards* ddoeth i'w côl,
Ac nid yw Merthyr ac Aberdar
  'Run gronyn bach ar ol— . .
Eu *Richard* hoff, a'u *Fothergil*,
  Yw testun eu holl gân,
A chyn y collant eu hoff wŷr
  Fe ro'nt y byd ar dân.

Yn Mynwy ceir ein *Clifford* ddewr
  Yn gwel'd ei ffordd yn rhydd,
Ac ymladd wneiff am chwareu teg
  Tra dalio goleu'r dydd:

Ac yn Sîr Benfro pwy sy'n well,
  A phwy sy'n uwch ei air,
A phwy sy'n caru llwydd ei wlad
  Fel gwron y Llwyngwair?

Mae'r blaid Ryddfrydig, onid yw,
  Fel lefain yn y blawd,
Yn gweithio'i ffordd yn rymus iawn
  Drwy rwystrau fyrdd a gwawd?
Fel llong lawn hwyliau, gadarn, gref,
  Ar for trochionog byw,
I borthladd llwyddiant mae hi'n myn'd,
  A GLADSTONE wrth y llyw, &c.

*Tir Simwnt.* L. J. R.

---

# Y TROED GOREU'N MLAEN.

TON,—"*Paddle your own Canoe.*"

Os ydwyt ti am fyn'd yn fawr,
  O dechreu'n awr rhag blaen,
A chychwyn ddyn, ar yrfa'r byd,
  Gan roi dy droed goreu'n mlaen;
Ond i ti wneyd hyn fe ddichon doi
  I lwyddiant mawr cyn hir.
Am hyny rho'th fryd ar goncro'r byd,
  Ar anrhydeddus dir.

  Yn lle bod â'i fŷs yn mriwes un arall,
    Fe fyddai yn well i bob un
  Fyned a dyfod tra yma'n y byd
    Dan feindio ei fusnes ei hun.

'Chyrhaeddodd neb i barch a bri
  Heb YMDRECH yn llanw'i fryd;
I nofio'n mlaen yn erbyn y lli,
  Ac ymladd yn ddewr â'r byd,

Na feddwl am laesu dy ddwylaw byth,
Ond ymladd di fel dyn.
Os â'i di â'r frwydr bydd melus y bri,
Os 'nilli di hwnw dy hun:
Yn lle bod â'i fŷs yn mriwes, &c.

O dywed y gwir beth bynag a wnei,
A bydd yn onest, ddyn,
Can's ni chei barch gan undyn byw,
Heb edrych ar ol dy hun;
Gofala am y geiniog—yn ngheg y cŵd
Y mae cynilo'r prês,
Heb wneuthr hyn, pe byddit fyw byth,
Ni fyddet ti damaid nês.
Yn lle bod â'i fŷs yn mriwes, &c.

Os ydyw'r byd yn gwgu'n awr,
Dal ato fo dipyn bach,
Fe fyddi yn uchaf cyn bo hir
Os byddi di byw ac iach,
Os ydyw Rhagluniaeth fel cwmwl du
Yn gwlawio ar bob llaw,
Ond codi dy galon ronyn bach,
Daw heulwen wedi gwlaw.
Yn lle bod â'i fŷs yn mriwes, &c.

**RHUDDENFAB.**

Pwy bynag gyhoeddo y caneuon hyn heb ganiatad yr awdwyr a gospir yn unol â'r 'Copy Right' Act.